Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Mehefin 2021

Amser: 10.30 – 10.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12338

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Rhys ab Owen AS Mark Isherwood AS Jack Sargeant AS (Cadeirydd dros dro)
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

Cytunodd y Pwyllgor i benodi Jack Sargeant AS yn Gadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22.

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 SL(6)013 - Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

3.2 SL(6)012 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

3.3 SL(6)014 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

4.1 SL(6)008 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.